

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cyngor</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>15 Mehefin 2023</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Rhoi gwybod i'r Cyngor am y sawl sydd wedi'i benodi'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cymorth Cynnar</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>Rhoi gwybod i'r Cyngor am y sawl sydd wedi'i benodi'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cymorth Cynnar, am hyd at 2 flynedd.</b>
<b>Er:</b>	<b>Gwybodaeth</b>
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Bryan Davies Arweinydd y Cyngor</b>

### **Cefndir**

Yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023, nodwyd bod unigolion wedi'u penodi ar gyfer y swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes (a'r Prif Swyddog Addysg) a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion (a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg) ar secondiad am hyd at 2 flynedd.

Penodwyd Mrs Elen James yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes (a'r Prif Swyddog Addysg) (secondiad) ac felly roedd angen llenwi ei rôl bwysig hi, sef Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar, a hynny ar secondiad am hyd at 2 flynedd. Yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill 2023 nodwyd y byddai'r broses recriwtio ar gyfer y rôl hon union yr un peth â'r broses a ddilynwyd ar gyfer y secondiadau eraill.

### **Y Broses Recriwtio**

Dyma oedd y broses ar gyfer recriwtio'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cymorth Cynnar:

1. Gofynnwyd am geisiadau / datganiadau o ddiddordeb o blith staff y Cyngor a staff yr ysgolion;
2. Cynigiwyd y rôl am hyd at 24 mis ar sail secondiad, gan adolygu'r trefniadau'n ffurfiol ar ôl 18 mis;
3. Dewiswyd tri Aelod Etholedig ar gyfer y Panel Penodi, sef:
  - Y Cynghorydd Bryan Davies (Arweinydd Grŵp – Plaid Cymru);
  - Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Arweinydd Grŵp – Democratiaid Rhyddfrydol);
  - Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Arweinydd Grŵp – Y Grŵp Annibynnol);
4. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar 11 Mai 2023;
5. Rhoi gwybod i'r Cyngor am y sawl a benodwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2023.

## **Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cymorth Cynnar (secondiad)**

Aeth y Pwyllgor ati i gyfweld yr ymgeiswyr cymwys ar 11 Mai 2023.

Ystyriodd y Pwyllgor yr atebion a roddwyd gan yr ymgeiswyr a rhoddodd Barry Rees a James Starbuck, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, gyngor i'r Pwyllgor.

Ar ôl ystyriaeth ofalus a phleidlais, penderfynodd y Pwyllgor y dylid penodi Mr Gregory Jones yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar ar secondiad o ddwy flynedd gan ddechrau cyn gynted â phosib ar ôl 22 Mai 2023; ar gyflog o £75,165, sef y pwynt cynyddrannol cyntaf ar raddfa gyflog A1 ar gyfer Swyddogion Arweiniol Corfforaethol (dyfarniad cyflog yn yr arfaeth).

	<b>A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam</b>	Naddo – nid yw hyn yn ymwneud â newid mewn polisi neu wasanaeth.
<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Crynodeb:</b> <b>Hirdymor:</b> Amherthnasol <b>Integreiddio:</b> Amherthnasol <b>Cydweithio:</b> Amherthnasol <b>Cynnwys:</b> Amherthnasol <b>Atal:</b> Amherthnasol	
<b>Argymhelliad / Argymhellion:</b>	<b>Nodi bod Mr Gregory Jones wedi'i benodi'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cymorth Cynnar am hyd at 2 flynedd o 22 Mai 2023 ymlaen, neu cyn gynted â phosib wedi hynny, ar gyflog o £75,165 (sef y pwynt cynyddrannol cyntaf ar raddfa gyflog A1 ar gyfer Swyddogion Arweiniol Corfforaethol).</b>	
<b>Rhesymau dros y penderfyniad:</b>	<b>Rhoi gwybod i'r Cyngor am y sawl sydd wedi'i benodi'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cymorth Cynnar.</b>	
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Amherthnasol	
<b>Fframwaith Polisi:</b>	Cyfansoddiad y Cyngor	
<b>Amcanion Corfforaethol:</b>	<b>Llesiant</b>	Cynorthwyo i gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor, sef: <ul style="list-style-type: none"><li>• Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth</li><li>• Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach</li><li>• Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu</li><li>• Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd.</li></ul>

<b>Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:</b>	O fewn cyllidebau'r gwasanaeth
<b>Goblygiadau Cyfreithiol:</b>	Dim
<b>Goblygiadau o ran Staff:</b>	Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cymorth Cynnar am hyd at 2 flynedd.
<b>Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:</b>	Dim
<b>Risg / Risgiau:</b>	Methu â phenodi rhywun ar gyfer rôl Swyddog Arweiniol Corfforaethol.
<b>Pwerau Statudol:</b>	Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989
<b>Papurau Cefndir</b>	Adroddiad i'r Cyngor – 20 Ebrill 2023
<b>Atodiadau:</b>	Dim
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Eifion Evans, Prif Weithredwr
<b>Dyddiad:</b>	12 Mai 2023